# Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 6 Mehefin 2023

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13377

## 142

Cynhaliwyd y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

### Datganiad gan y Llywydd

Am 13.30, gwnaeth y Llywydd, ar ran y Senedd, ddatganiad yn estyn cydymdeimlad â theulu a chyfeillion yr Arglwydd John Morris, cyn Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Am 13.32, gwnaeth y Prif Weinidog ddatganiad o gydymdeimlad hefyd.

### Datganiad gan y Llywydd

Am 13.35, cyhoeddodd y Llywydd, yn unol â Rheol Sefydlog 26.75, bod y Bil Partneriaethau Cymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 wedi cael Cydsyniad Brenhinol ar 24 Mai 2023.

### 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 13.35

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

### 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 14.37

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 3 Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Gwella Capasiti drwy Ofal Cymunedol - Ymhellach yn Gyflymach

Dechreuodd yr eitem am 14.53

## 4 Datganiad gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg: Addysg Ddewisol yn y Cartref

Dechreuodd yr eitem am 15.22

## 5 Datganiad gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Ymateb y llywodraeth i ail gam cyd-ddylunio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy - GOHIRIWYD TAN 11 GORFFENNAF 2023

Gohiriwyd yr eitem hon

## 6 Datganiad gan Weinidog yr Economi: Datblygu Economaidd yn y Canolbarth

Dechreuodd yr eitem am 16.03

## 7 Datganiad gan Weinidog yr Economi: Y Sectorau Technoleg a Seiber

Dechreuodd yr eitem am 16.47

## Cynnig i atal Rheolau Sefydlog dros dro

Dechreuodd yr eitem am 17.18

**NNDM8285** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod Senedd Cymru, yn unol â Rheolau Sefydlog 33.6 a 33.8:

Yn atal Rheol Sefydlog 12.20(i) er mwyn caniatáu i NNDM8284 gael ei ystyried yn y Cyfarfod Llawn ar 6 Mehefin 2023.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 8 Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwystra) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2023

Dechreuodd yr eitem am 17.18

**NNDM8284** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5, yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwystra) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2023 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a **osodwyd** yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Mai 2023.

**Dogfennau Ategol**
Memorandwm Esboniadol

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## Cynnig i atal Rheolau Sefydlog dros dro

Dechreuodd yr eitem am 17.21

**NNDM8287** Mick Antoniw (Pontypridd)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheolau Sefydlog 33.6 a 33.8:

Yn atal Rheol Sefydlog 12.20(i) a'r rhan honno o Reol Sefydlog 11.16 sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y cyhoeddiad wythnosol o dan Reol Sefydlog 11.11 yn darparu'r amserlen ar gyfer busnes yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos ganlynol, er mwyn caniatáu i ddadl ar NNDM8286 gael ei hystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 6 Mehefin.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 9 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio)

Dechreuodd yr eitem am 17.22

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

**NNDM8286** [Mick Antoniw (Pontypridd)]

Cynnig bod Senedd Cymru yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio), a nodir yn Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Rhif 5, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

**Troednodyn:**

Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Mai, yn unol â Rheol Sefydlog 29.2

Gellir cael copi o'r Bil ar wefan Senedd y DU:

https://bills.parliament.uk/bills/3340 *(Saesneg yn unig)*

**Dogfennau Ategol**

Llythyr gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 16 Mai 2023

Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 2 Mehefin 2023 *(Saesneg yn unig)*

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 17 | 0 | 36 | 53 |

**Gwrthodwyd y cynnig.**

## 10 Cyfnod pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 17.44

Daeth y cyfarfod i ben am 17.44

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mercher, 7 Mehefin 2023**